Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Cynigion y Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010)

2011-12

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cynigion y Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010)
2011-12

**COMISIWN CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**Y GYLLIDEB DDRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN YN DECHRAU 31 MAWRTH 2012**

**Cynnwys**


Cyflwyniad .......... 2
Strategaeth y gyllideb .......... 3
Newidiadau allweddol .......... 4
Y gyllideb ddrafft .......... 4
Rhan 1 Cyllideb gwasanaethau'r Cynulliad .......... 8
  Cwmpas cyllideb newydd .......... 8
  Dull strategol o weithredu yn 2011-12 .......... 8
  Cyflawni â llai .......... 9
Rhan 2 Cyllideb Aelodau'r Cynulliad .......... 16
  Cwmpas cyllideb newydd .......... 16
  Gwariant ar yr etholiad .......... 17
Atodiad 1 - Cyllideb Ddrafft Aelodau'r Cynulliad 2011-12 .......... 20
  Cyllideb 2010-11 wedi'i hailddatgan .......... 22
Atodiad B – Y Gyllideb Ddrafft yn ôl Gwasanaeth/Swyddogaeth ac Amcanion Strategol Comisiwn y Cynulliad .......... 24
Atodiad C – Cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad arian parod net gan Gronfa Gyfunol Cymru .......... 25
Atodiad D – Cyllideb gwasanaethau'r Cynulliad - rhagor o fanylion .......... 26

# Cyflwyniad

1. Roedd Comisiwn y Cynulliad yn rhagweld y byddai angen iddo ailasesu strategaeth ei gyllideb ar ôl yr Adolygiad o Wariant a gyhoeddwyd ar 20 Hydref. Mae'r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb yn disodli'r ddogfen flaenorol a osodwyd ar 24 Medi 2010 o ganlyniad i newidiadau a wnaed ar ôl cyhoeddi'r Adolygiad o Wariant.

2. Ym mis Mai 2007, sefydlwyd Comisiwn y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r 60 Aelod Cynulliad. Diben y Comisiwn yw sicrhau bod y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

3. Mae penderfyniadau a'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu'n seiliedig ar amcanion strategol y Comisiwn ar gyfer y Trydydd Cynulliad, sef:

   - hyrwyddo datganoli ac annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn ei gwaith;
   - dangos undod, arweiniad ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol;
   - dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith;
   - gweithio'n gynaliadwy; a
   - gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, ac y caiff ei ddarparu yn y modd mwyaf effeithiol.

4. Mae'r ddogfen hon yn gosod allan gynigion cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2011-12, sef y bumed flwyddyn ers sefydlu'r Comisiwn, a'r dulliau o weithio y mae'r Comisiwn wedi'u mabwysiadu o fewn y cyd-destun strategol ehangach o leihau gwariant cyhoeddus.

5. Bydd y Comisiwn yn gosod ei gyllideb derfynol ar ôl i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad graffu ar y Gyllideb Ddrafft hon.

## Strategaeth y gyllideb

6. Y pedair blynedd nesaf fydd yr anoddaf i'r Cynulliad eu hwynebu o safbwynt ariannol gan y bydd cyfyngiadau sylweddol ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad yn unol â'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

7. Yn y gorffennol diweddar, wrth gyflwyno'i gynigion ar gyfer y gyllideb, mae'r Comisiwn wedi ceisio adlewyrchu canran y newidiadau ym mloc Cymru. Ar hyn o bryd, mae cyllideb y Comisiwn yn cyfateb i 0.30[1] y cant o floc Cymru. Nod strategaeth cyllideb y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yw sicrhau arbedion dros y pedair blynedd nesaf a fydd o leiaf yn cyfateb i ganran y gostyngiad a ragwelir ym mloc Cymru[2] dros yr un cyfnod, ac eithrio'r gwariant a nodir yn y paragraff nesaf ar gostau untro'r etholiad.

8. Mae un eithriad i'r dull hwn o bennu'r gyllideb. Caiff y Pedwerydd Cynulliad ei ethol yn 2011. Mae costau untro anochel yn gysylltiedig ag etholiad sy'n cynnwys costau diswyddo Aelodau nad ydynt yn parhau fel Aelodau'r Cynulliad, a'u staff, a'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu Aelodau newydd mewn swyddfeydd etholaethol ac mewn llety yng Nghaerdydd (lle bo hynny'n briodol). Nid oes modd rhagweld faint yn union fydd y costau hyn, ond mae'r Comisiwn wedi cynnwys amcangyfrif o'r costau yn ei gyllideb ddrafft. Dim ond yn ystod blwyddyn etholiad y bydd y costau hyn yn codi ac ni all y gostyngiadau yng ngweddill y gyllideb effeithio arnynt.

9. Wrth benderfynu sut i ymdopi â'r gostyngiadau yn ei adnoddau yn 2011-12, mae'r Comisiwn wedi penderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, sef:

    - diogelu busnes deddfu craidd y Cynulliad;
    - pontio'n llwyddiannus rhwng y Trydydd a'r Pedwerydd Cynulliad;

---

[1] Addaswyd o 0.31% i adlewyrchu cost y newid cyfalaf yn dilyn prosiect Alinio Trysorlys Ei Mawrhydi

[2] Yn adelwyrchu newidiadau yn y DEL (Terfyn Gwariant Adrannol) - Ffynhonnell: ffigurau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn eu Hysbysiad Hwylus MRS 10/2941 Adolygiad o Wariant 2010 – Effaith ar Gymru Hydref 2010

- ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol yn dilyn y Refferendwm ar roi pwerau ychwanegol i'r Cynulliad;

- cynllunio ar gyfer y gostyngiad mewn adnoddau gan y bydd maint y toriadau y bydd angen eu gwneud yn arwain at newidiadau sylfaenol.

## Newidiadau allweddol

10. Mae'r Mesur Cynulliad cyntaf a gynigiwyd gan y Comisiwn yn sefydlu corff adolygu annibynnol ("y Bwrdd Taliadau") i benderfynu ar bob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, i ystyried y newidiadau yng nghyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad ac i adolygu pa mor effeithiol, a beth yw effaith, y broses uwchraddio. Mae aelodau'r Bwrdd Taliadau wedi'u penodi ac mae'r Bwrdd wedi dechrau ar ei waith. Golyga hyn y bydd cylch gwaith y Comisiwn, a'r modd y mae'n trefnu'i gyllideb ac agweddau ar ei wasanaethau, yn newid.

11. Fel ymateb i'r newid hwn, mae'r Comisiwn yn gofyn am ddau swm awdurdodedig ar wahân ('cwmpasau'). Gwariant a fydd yn parhau i gael ei reoli'n uniongyrchol gan y Comisiwn yw'r naill ('Cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad') a gwariant a gaiff ei bennu gan y Bwrdd Taliadau yw'r llall ('Cyllideb Aelodau'r Cynulliad'). Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn parhau'n atebol am y ddwy agwedd ar wariant yn rhinwedd ei swydd fel y Swyddog Cyfrifyddu. Caiff y ddau gwmpas eu hadolygu'n fanylach yn Rhannau 1 a 2 isod.

## Y gyllideb ddrafft

12. Cyflwynir y gyllideb ddrafft hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27. Bydd o gymorth wrth baratoi'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol sy'n ofynnol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn nodi'r adnoddau a'r arian parod y bydd eu hangen ar y Cynulliad am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2010 a'r symiau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

13. Bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Aelodau a Gwasanaethau'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys yr uchafswm incwm (neu'r adnoddau cronnus) a gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau ac at y dibenion hynny yn lle'u talu i Gronfa Gyfunol

Cymru, a'r swm o arian parod y bydd ei angen gan Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau net y disgwylir y bydd angen i'r Comisiwn eu talu.

14. Mae Cyllideb 2011-12 Comisiwn y Cynulliad, sy'n ymdrin â'r gofynion hyn, wedi'i gosod allan yn Nhabl 1:

**Tabl 1: Cyllideb ddrafft 2011-12 Comisiwn y Cynulliad**

**£000**

| | |
|---|---|
| Adnoddau nad ydynt yn adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer costau refeniw a chyfalaf yn gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau'n ymwneud â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | **32,328** |
| Adnoddau nad ydynt yn adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. | **16,494** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | **500** |
| Adnoddau cronnus i'w cadw'n unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br>• drwy waredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w defnyddio i brynu neu i gaffael asedau sefydlog; neu<br>• incwm rhent; anrhegion; cymorth grant; ailgodi tâl ac incwm a geir drwy werthu eiddo masnachol a drwy ddarparu gwasanaethau eraill i'r cyhoedd neu eraill ac i'w defnyddio i dalu am gostau gweinyddu'r Cynulliad. | **260** |
| Y swm i'w dderbyn gan Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y disgwylir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn am y gwasanaethau a'r dibenion uchod llai'r derbyniadau y disgwylir y gellir eu cadw a'r TAW y disgwylir y gellir ei adennill. | **46,718** |

Rhan 01–

# Cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad

# Rhan 1 Cyllideb gwasanaethau'r Cynulliad

## Cwmpas cyllideb newydd

15. Mae cwmpas cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad yn cynnwys yr adnoddau ar gyfer y Cynulliad yn ei gyfanrwydd ac nad ydynt yn cael eu cynnwys yng nghwmpas Aelodau'r Cynulliad. Mae'r cwmpas yn cynnwys eitemau fel rhent, ardrethi, gwasanaethau a chyfleustodau a gaiff eu contractio allan, er mai'r gost o gyflogi staff y Cynulliad yw bron hanner y gwariant o dan y cwmpas hwn. Cewch ragor o wybodaeth am waith y Cynulliad yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Comisiwn yn www.cynulliadcymru.org .

## Dull strategol o weithredu yn 2011-12

16. Caiff cyllideb 2011-12 ac wedi hynny ei pharatoi ar sail gostyngiadau o'r naill flwyddyn i'r llall, a fydd, o leiaf, yn adlewyrchu effaith y toriadau mewn gwariant cyhoeddus ar floc Cymru. Ar sail rhagolygon diweddaraf y Trysorlys ar gyfer chwyddiant yn yr economi'n gyffredinol[3], bydd y Comisiwn yn gwneud toriadau o 5 y cant mewn termau real yn 2011-12, toriadau o 2 y cant yn 2012-13 a 2013-14 a thoriadau o 3 y cant yn 2014-15. Bydd hyn yn sicrhau gostyngiad cronnus o 12 y cant erbyn mis Mawrth 2014 o'i gymharu ag 11% ym mloc Cymru yn gyffredinol.

17. Mae cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad dros y pedair blynedd nesaf i'w gweld yn Nhabl 2.

[3] Yn seiliedig ar ragolygon Trysorlys Ei Mawrhydi: 2011-12 1.9 y cant, 2012-13 2.3 y cant a 2013-14 2.6 y cant fel ar 29 Medi.

**Tabl 2 – Y Gyllideb Ddangosol** **£000s**

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Cynulliad | 32,847 | 31,673* | 31,688 | 31,895 | 31,906 |
| % y gostyngiad yn y gyllideb mewn termau real | | 5.4%** | 2.2% | 1.9% | 2.5% |
| Yn cyfateb i ostyngiad o | | 1,798 | 713 | 617 | 818 |
| Costau untro'r etholiad | | 655 | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb DEL** | **32,847** | **32,328** | **31,688** | **31,895** | **31,906** |

* Roedd Cyllideb 2010-11, mewn cymhariaeth, yn amcangyfrif £35.986m ar gyfer 2011-12.
** Wedi'i dalgrynnu o 5.373%

18. Bydd yn anodd iawn sicrhau'r gostyngiad hwn a bydd angen canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau er mwyn i'r Comisiwn fedru parhau i gyrraedd safonau uchel yn yr agweddau pwysicaf ar ei waith. Mae newidiadau yng nghwmpas, amseriad a safon gwasanaethau yn anorfod a bydd yr Aelodau a phobl eraill sy'n defnyddio'n gwasanaethau'n sylwi ar y newidiadau hyn. Bydd angen lleihau neu gwtogi ar rai agweddau ar ein gwaith er mwyn medru darparu gwasanaethau â llai o adnoddau.

## Cyflawni â llai

19. Mae'r camau a gymerwyd eisoes i reoli'n gwaith mewn cyfnod tyn yn cynnwys:

- rheoli swyddi gwag yn gadarn, gan ddisgwyl y bydd swyddi'n cael eu llenwi'n fewnol neu y byddant yn parhau'n wag am o leiaf dri mis. Rhaid cyflwyno achos busnes, wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr, cyn recriwtio i unrhyw swydd. Dyma'r fu'r drefn erioed yn achos swyddi newydd ond mae'n awr wedi ymestyn i gynnwys pob swydd wag yn y strwythur newydd;

- gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn o ran defnyddio ynni gan leihau effaith y cynnydd mewn biliau ynni. Yn 2009-10, bu gostyngiad o 14.6 y cant yn yr ynni a ddefnyddiwyd ar ystâd y Comisiwn, gan arwain at arbedion o 5 y cant o leiaf yn y gyllideb ynni. Dros y blynyddoedd nesaf, disgwylir y bydd tuedd debyg i ddefnyddio llai o ynni o flwyddyn i flwyddyn;

- cyflwyno cynllun gwirfoddol i staff adael eu swyddi'n gynnar er mwyn lleihau costau staff yn gynt;
- sicrhau bod staff yn fwy cynhyrchiol drwy leihau absenoldeb oherwydd salwch drwy'r Cynulliad cyfan, gan arbed dros £0.2 miliwn y flwyddyn.

20. Mae gan y Comisiwn drefniadau rheoli arian cadarn i'w defnyddio i nodi rhagor o gyfleoedd i leihau costau ac i sicrhau ei fod yn gweithio mor effeithlon â phosibl, er enghraifft:

- ymchwilio i'r posibilrwydd o adennill incwm neu gostau;
- cyflwyno rhaglenni gwaith a phrosiectau gan ystyried effaith penderfyniadau buddsoddiadau cyfalaf yn briodol;
- newid y modd y caiff gwasanaethau sydd wedi'u contractio allan eu darparu i leihau manylebau neu i ddarparu'r un gwasanaethau yr un mor effeithlon mewn gwahanol ffyrdd. Bydd hyn yn golygu newidiadau amlwg yn y prif gytundebau gwasanaeth ac mae'n debyg o effeithio ar lefelau staffio'r contractwyr;
- cydweithredu â gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys rhannu gwasanaethau;
- adolygu'r modd y caiff gweithleoedd eu defnyddio er mwyn lleihau costau ynni a chostau eraill;
- osgoi dyblygu gwaith a symleiddio gwaith pan fo modd gan ddefnyddio data meincnodi wrth ddod i benderfyniadau.

21. Wrth gynnal yr adolygiadau hyn, bydd y Comisiwn yn sicrhau ei fod yn parhau i ymgymryd â'i gyfrifoldebau corfforaethol statudol – yr iaith Gymraeg, cynaliadwyedd, cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch a dyletswyddau cyfreithiol eraill – ond mewn rhai meysydd, mae'n derbyn y bydd angen cwtogi ar rai dyheadau enghreifftiol.

22. Gan adeiladu ar y cynnydd a amlinellir uchod, mae gostyngiadau eraill wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2011-12:

- gostyngiad o £1.4 miliwn (4.4 y cant) yng nghostau cyflogau drwy gynnig cynlluniau gadael swyddi'n gynnar i staff yn 2010-11 a thynhau trefniadau recriwtio. Bydd hyn yn gwrthbwyso'r cynnydd yng nghyflogau staff, gan arwain at ostyngiad net o £0.7 miliwn;

- gostyngiad o £1.100 miliwn (3.4 y cant) yng nghostau TGCh drwy reoli newidiadau mewn gwasanaethau a ddarperir drwy gytundebau a chwblhau prosiectau Technoleg Gwybodaeth fel System Gwaith Achos yr Aelodau gan wrthbwyso'r cynnydd anochel yng nghostau gwefannau a thrwyddedau, gan arwain at ostyngiad o £0.7 miliwn;

- gostyngiad o £0.6 miliwn (1.9 y cant) yng nghostau adeiladau drwy newid targedau perfformiad a darpariaeth i adlewyrchu blaenoriaethau newydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys lleihau gwariant ar gontractau a lleihau neu ddiddymu cymorthdaliadau i gwsmeriaid mewnol, er enghraifft drwy edrych ar ein gwasanaethau arlwyo a meysydd parcio. Bydd hyn y gwrthbwyso'r cynnydd anochel gan arwain at ostyngiad o £0.4miliwn;

- £0.6 miliwn (1.9 y cant) drwy adolygu agweddau ar y gyllideb lle bydd llai o alw neu agweddau a gaiff eu rheoli i leihau'r costau, fel costau recriwtio, teithio ac offer swyddfa. Diddymu'r cyllid hefyd ar gyfer gweithgareddau fel cynllun mentora'r Aelodau a'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth staff. £0.3 miliwn;

- gostyngiad o £0.5 miliwn (1.6 y cant) yng nghostau cyfathrebu ac ymwneud â'r cyhoedd ar ôl i'r costau untro'n gysylltiedig â phrosiect y Pierhead ddod i ben ac ar ôl newid y modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

23. Dyma'r cynnydd mewn costau sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb ddrafft 2011-12:

- costau dibrisiant ychwanegol o £0.4miliwn mewn buddsoddiadau cyfalaf;

- cronfa wrth gefn o £0.5miliwn;

- cronfa ad-drefnu gwasanaethau o £0.6miliwn i sicrhau arbedion cylchol ar gostau staff;

- menter newydd o ganlyniad i argymhellion *Yn Gywir i Gymru* i gyflwyno rhagor o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i'r Aelodau, yn enwedig yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl etholiad. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno'r hyfforddiant hwn yn fewnol yn bennaf, gan fanteisio ar arbenigedd y staff presennol yn ogystal â chaffael darpariaeth allanol.

24. Mae'r tâl dibrisiant, sy'n codi o ganlyniad i benderfyniadau buddsoddi yn y gorffennol, yn parhau i gynyddu ac amcangyfrifir mai £3.254 miliwn fydd y swm yn 2011-12. Yn 2011-12 bydd angen gwario 10 y cant o Gyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad arno, ac mae hyn wedi cael cryn effaith a bu'n rhaid lleihau rhagor ar gyllidebau gwasanaethau.

25. Bydd y Comisiwn yn adolygu'i strategaeth buddsoddi cyfalaf yn ystod y 12 mis nesaf i sicrhau bod ei bolisi'n adlewyrchu fforddiadwyedd a chostau gydol oes penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol. Er enghraifft, pe bai'r Comisiwn yn adlewyrchu'r toriadau o 5 y cant mewn termau real yn y tâl dibrisiant, byddai angen gostyngiad o £500k yn ei sylfaen asedau.

26. Dangosir costau'r etholiad ar wahân i gynnwys yr hyn y bydd y Comisiwn yn ei wario'n uniongyrchol ar yr etholiad. Mae'n cynnwys costau untro gan gynnwys newidiadau TGCh, gwaith hanfodol ynswyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, newidiadau mewn defnyddiau cyhoeddi i adlewyrchu'r Cynulliad newydd a'r agoriad Brenhinol. Os bydd unrhyw danwario, caiff y swm ei ddychwelyd drwy gyfrwng y gyllideb atodol. Drwy ychwanegu costau untro'r etholiad yn 2011-12, mae modd egluro'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau a gafodd eu cyllidebu ar gyfer Gwasanaethau'r Comisiwn fel y gwelir yn Nhablau 1 a 2.

27. Mae Tabl 3 ar dudalen 12 yn rhoi crynodeb o'r newidiadau a ddisgrifir uchod.

**TABL 3 – Gwasanaethau'r Cynulliad - Dadansoddi symudiadau rhwng Cyllideb 2010-11 a Chyllideb ddrafft 2011-12**

| | 2010-11 | Cynnydd | Gostyngiad | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|
| *Gwariant refeniw* | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyflogau staff gan gynnwys secondiad mewnol | 14,726 | 694 | (1,389) | 14,031 |
| Costau adnoddau dynol gan gynnwys recriwtio a chyfarpar iechyd a diogelwch | 151 | - | (65) | 86 |
| Hyfforddiant corfforaethol a chostau hyfforddi a datblygu staff / Aelodau | 250 | 83 | (38) | 295 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 208 | - | (76) | 132 |
| Costau TGCh gan gynnwys y wefan, darlledu a chostau thrwyddedu a chynnal a chadw | 4,258 | 351 | (1,090) | 3,519 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau gan gynnwys ardrethi, trydan, arlwyo, glanhau a chynnal a chadw* | 7,181 | 249 | (643) | 6,787 |
| Costau cyfathrebu ac ymwneud â'r cyhoedd, gan gynnwys gwasanaethau ymwelwyr, allgymorth a digwyddiadau cenedlaethol | 896 | - | (497) | 399 |
| Costau gweinyddol eraill* | 1,456 | 175 | (410) | 1,221 |
| Dibrisiant | 2,822 | 432 | - | 3,254 |
| Cronfa wrth gefn | 334 | 166 | - | 500 |
| Cronfa ad-drefnu | - | 593 | - | 593 |
| **Gwariant Refeniw Crynswth** | **32,282** | **2,743** | **(4,208)** | **30,817** |

| | 2010-11 | Cynnydd | Gostyngiad | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|
| *Incwm Refeniw* | | | | |
| Nwyddau a werthwyd yn Siop y Cynulliad | (40) | - | - | (40) |
| Incwm rhent adeiladau | (90) | - | - | (90) |
| Incwm Amrywiol | (80) | (50) | - | (130) |
| **Incwm Refeniw Crynswth** | **(210)** | **(50)** | **-** | **(260)** |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **32,072** | **2,693** | **(4,208)** | **30,557** |
| Gwariant cyfalaf – creu asedau sefydlog | 775 | 341 | | 1,116 |
| **GWARIANT CYFALAF NET** | **775** | **341** | **0** | **1,116** |
| **Y GOFYNIAD ADNODDAU** | **32,847** | **3,034** | **(4,208)** | **31,673** |
| **Costau'r etholiad – gwariant refeniw** | **-** | **655** | | **655** |
| **CYFANSWM Y GOFYNIAD ADNODDAU** | **32,847** | **3,689** | **(4,208)** | **32,328** |

*Ewch i Atodiad D i weld y manylion

Rhan 02–

## Cyllideb Aelodau'r Cynulliad

# Rhan 2 Cyllideb Aelodau'r Cynulliad

## Cwmpas cyllideb newydd

28. Bydd y Bwrdd Taliadau a sefydlwyd yn ddiweddar yn gyfrifol am sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael eu talu'n deg ac yn briodol am eu gwaith, sef cynrychioli pobl Cymru, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a deddfu ar gyfer Cymru. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn cael cyflogau a lwfansau i dalu am eu treuliau yn y Cynulliad, am redeg eu swyddfeydd etholaethol ac am gyflogi staff i'w cynorthwyo â'u gwaith fel Aelodau'r Cynulliad. Mae lwfansau a chyflogau Aelodau'r Cynulliad wedi'u gosod allan yn y 'Penderfyniad' sydd i'w weld yn www.cynulliadcymru.org.

29. Bydd cwmpas cyllideb newydd i dalu'r costau hyn ac i wahaniaethu rhwng yr adnoddau ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau am gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau i'r Cynulliad cyfan.

30. Yn unol â'r strategaeth a nodwyd ar ddechrau'r gyllideb ddrafft hon, mae'r gyllideb ddrafft hon yn adlewyrchu'n llawn y gostyngiadau a ragwelir ym mloc Cymru mewn termau real o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae cyllideb ddrafft yr Aelodau ar gyfer 2011-12 yn adlewyrchu gostyngiad o 4 y cant mewn termau real o'i chymharu â chyllideb gyfatebol 2010-11, ond mae hefyd yn cynnwys swm arall ar gyfer y costau etholiad sydd wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad (gweler yr adran 'Gwariant ar yr Etholiadol' isod). Gan fod y gyllideb ddrafft hon yn cael ei gosod cyn ceir penderfyniad y Bwrdd Taliadau, nid yw'r Comisiwn yn gwybod beth fydd penderfyniad y Bwrdd mewn perthynas â chyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn 2011-12.

31. Mae cyllideb ddrafft Aelodau'r Cynulliad i'w gweld yn Nhabl 4. Caiff y blynyddoedd nesaf eu haddasu yn ystod o broses o baratoi cyllideb 2012-13 ar ôl ystyried penderfyniadau'r Bwrdd.

**Tabl 4 – Y gyllideb ddangosol** **£000**

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad | 13,380 | 13,034* | 13,041 | 13,126 | 13,130 |
| % y toriadau yn y gyllideb mewn termau real | | 4.4% | 2.2% | 1.9% | 2.5% |
| Yn cyfateb i ostyngiad o | | 600 | 293 | 254 | 337 |
| Costau untro'r etholiad | | 3,460 | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb DEL** | **13,380** | **16,494** | **13,041** | **13,126** | **13,130** |
| **Cyllideb AME** | **500** | **500** | **500** | **500** | **500** |

* Roedd cyllideb 2010-11, mewn cymhariaeth, yn amcangyfrif swm o £13.923m ar gyfer 2011-12.

32. Ni all y Comisiwn ddweud ar hyn o bryd a fydd y swm a nodir yn y tabl uchod ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn ariannu penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau'n llawn. Os bydd angen swm gwahanol o gyllid ar gyfer 2011-12, gallai'r Cynulliad ddefnyddio cyllideb atodol i addasu'r swm. Mae'r prif feysydd gwariant sy'n berthnasol i'r gyllideb wedi'u rhestru isod:

- Cyflogau Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth;
- Costau Aelodau'r Cynulliad sy'n teithio yn eu ceir eu hunain;
- Costau teithio a chynhaliaeth Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth;
- Lwfans Costau Swyddfa Aelodau'r Cynulliad;
- Lwfans Costau Ychwanegol Aelodau'r Cynulliad;
- Cymorth i Grwpiau;
- Costau untro'r etholiad (gweler isod).

## Gwariant ar yr etholiad

33. Mae'n anorfod y bydd y Cynulliad yn gwario mwy yn ystod blwyddyn etholiad gan fod costau ynghlwm wrth y ffaith bod Aelodau'n penderfynu

peidio â sefyll eto neu'n methu cael eu hailethol. Amcangyfrifir mai £3.460 miliwn fydd cyfanswm y costau untro hyn ar gyfer 2011-12.

34. Gan mai dim ond amcangyfrif cyfanswm cost yr etholiad sy'n bosibl, mae ansicrwydd ynglyn â'r gofyniad ariannol. Bydd gwir gost yr etholiad yn dibynnu ar amgylchiadau'r Aelodau newydd a'r Aelodau sy'n ymddeol ac ar y newidiadau yn Aelodaeth y Cynulliad. Os bydd yr amcangyfrif yn fwy na'r gwir wariant, gall y Comisiwn geisio dychwelyd y swm dros ben i floc Cymru drwy gyfrwng y gyllideb atodol. Os bydd yr amcangyfrif yn llai na'r gwir wariant, gallai'r Comisiwn ystyried a oes angen gofyn am gyllid atodol. Mae'n annhebygol, fodd bynnag, y bydd y gost yn fwy na'r amcangyfrif o £3.460 miliwn.

35. Dyma'r costau sydd wedi'u nodi ar gyfer yr etholiad.

- **Grant Cyfarpar Swyddfa Aelodau Newydd** – grant o hyd at £5,000 i bob Aelod newydd, sy'n ychwanegol at y lwfans costau swyddfa;
- **Gwariant Ychwanegol Aelodau Newydd** – bydd gwariant ychwanegol mewn perthynas ag Aelodau newydd yn ystod blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad;
- **Grant Ymaddasu –** grant sy'n daladwy i Aelodau sy'n penderfynu peidio â sefyll yn yr etholiad neu sy'n colli'u sedd yn yr etholiad. Amcangyfrifir mai'r gost, ar gyfartaledd, fydd £45,000;
- **Lwfans Dirwyn i Ben** - lwfans sy'n daladwy i Aelodau sy'n penderfynu peidio â sefyll yn yr etholiad neu sy'n colli'u sedd yn yr etholiad i ganiatáu iddynt ddirwyn eu gwaith i ben yn drefnus. Amcangyfrifir mai'r gost, ar gyfartaledd, fydd £51,000;
- **Tâl dileu swydd** – o dan amodau cyflogaeth staff cymorth, pan fydd Aelodau'n penderfynu peidio â sefyll yn yr etholiad neu'n colli'i sedd yn yr etholiad, mae gan eu staff cymorth hawl i daliadau dileu swydd pan ddaw eu swyddi i ben. Elfen statudol y taliadau hyn yw £11,000 yr Aelod, ar gyfartaledd.

Atodiad–

## Cyllideb Ddrafft Aelodau'r Cynulliad 2011-12

# Atodiad 1 - Cyllideb Ddrafft Aelodau'r Cynulliad 2011-12

Dadansoddiad yn ôl natur y gwariant a'r incwm

| | **£000**<br>**2011-12 Cyllideb** | **£000**<br>**2010-11 Cyllideb** |
|---|---|---|
| *Gwariant refeniw* | | |
| Costau'n gysylltiedig â chyflogau'r Aelodau | Y Bwrdd Taliadau i gadarnhau | 5,406 |
| Costau'n gysylltiedig â chyflogau staff cymorth | | 6,222 |
| Llogi ceir gan ACau | | 50 |
| Costau'r Aelodau sy'n teithio yn eu ceir eu hunain | | 160 |
| Costau Teithio a Chynhaliaeth yr Aelodau yn y DU | | 81 |
| Costau Teithio a Chynhaliaeth yr Aelodau dramor | | 61 |
| Costau teithio teuluoedd yr Aelodau | | 9 |
| Costau Teithio a Chynhaliaeth staff cymorth | | 24 |
| Lwfans Costau Swyddfa'r Aelodau | | 850 |
| Lwfans Costau Ychwanegol yr Aelodau | | 484 |
| Teithio a Chynhaliaeth y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | | 6 |
| Treuliau Comisiynwyr y Cynulliad | | 1 |
| Comisiynydd Safonau (2010-11yn unig) | - | 26 |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **13,034**[4] | **13,380** |
| Gwariant Cyfalaf | - | - |
| **GWARIANT CYFALAF NET** | - | - |
| Costau'r etholiad | 3,460 | - |
| **Cyfanswm y gofyniad adnoddau** | **16,494** | **13,380** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | |
| Darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad | 500 | 500 |

[4] Yn adlewyrchu toriadau o 4.4 y cant mewn termau real

# Atodiadau

# Atodiad A – Cyllideb 2010-11 wedi'i hailddatgan

Mae cyllideb ddrafft 2011-12 yn cynnwys cyfarwyddyd Trysorlys ei Mawrhydi i ddileu cost y tâl cyfalaf ac yn adlewyrchu'r ffaith bod y ddarpariaeth ar gyfer pensiwn Aelodau'r Cynulliad wedi'i symud o'r gyllideb Adnoddau i'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME).

Mae dadansoddiad o ffigurau 2010-11 isod at ddibenion cymharu.

## Cyllideb 2010-11 wedi'i hailddatgan

Derbyniwyd y cynnig cyllidebol atodol 2010-11 gan y Cyfarfod Llawn ar 13 Gorffennaf 2010. Mae'r gyllideb atodol hon yn cyflwyno newidiadau o ganlyniad i brosiect Alinio Trysorlys Ei Mawrhydi. Un o brif ganlyniadau'r prosiect hwn yw adolygu trefniadau cyllido adnoddau nad ydynt yn arian parod. Caiff y newidiadau eu cyflwyno fesul cam a bydd yr effeithiau cyntaf i'w gweld yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11.

| **Disgrifiad** | **Cyllideb 2010-11 a gymeradwywyd (£000)** | **Newidiadau 13 Gorffennaf 2010 (£000)** | **Cyllideb Atodol 2010-11 (£000)** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Net (DEL) | 48,973 | (2,746) | 46,227 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | - | 500 | 500 |
| **Cyfanswm** | **48,973** | **(2,246)** | **46,727** |
| sy'n cynnwys: | | | |
| Adnoddau cronnus | (210) | - | (210) |
| Gofyniad arian net | 43,405 | - | 43,405 |

Y prif newidiadau yng nghyllidebau 2010-11 yw nad oes angen cost y tâl cyfalaf bellach a chaiff ei ddileu'n gyfan gwbl o gyllidebau; ac mae'r cyllidebau nad ydynt yn arian parod yn symud o'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) i'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME).

Caiff y newidiadau eu hadlewyrchu uchod gyda'r £2.246 miliwn yn ymwneud â dileu cost cyfalaf o gyllidebau a'r penderfyniad i drin y £0.500 miliwn ar gyfer pensiynau fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn hytrach na fel rhan o'r Gyllideb Adnoddau neu'r Terfyn Gwariant Adrannol.

Er mwyn cymharu cyllidebau 2010-11 a 2011-12 ymhellach, mae'r tabl a ganlyn yn dangos sut y byddai cyllideb 2010-11 yn cael ei chyflwyno o dan y cmpasau gwahanol ar gyfer Gwasanaethau Aelodau'r Cynulliad a'r Cynulliad yn gyffredinol.

| **Disgrifiad** | **Cyllideb 2010-11 a gymeradwywyd (£000)** | **Newidiadau 13 Gorffennaf 2010 (£000)** | **Cyllideb Atodol 2010-11 (£000)** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Adnoddau Net Gwasanaethau'r Cynulliad (DEL) | 35,093 | (2,246) | 32,847 |
| Cyllideb Aelodau'r Cynulliad | 13,880 | (500) | 13,380 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | - | 500 | 500 |
| **Cyfanswm** | **48,973** | **(2,246)** | **46,727** |
| sy'n cynnwys: | | | |
| Adnoddau cronnus | (210) | - | (210) |
| **Gofyniad arian parod net** | **43,405** | **-** | **43,405** |

## Atodiad B – Y Gyllideb Ddrafft yn ôl Gwasanaeth/Swyddogaeth ac Amcanion Strategol Comisiwn y Cynulliad

**Comisiwn y Cynulliad: Alinio Cyllideb Ddrafft 2011-12 yn ôl Gwasanaethau ac Amcanion Strategol**

| Gwasanaeth/swyddogaeth | Hyrwyddo datganoli ac ennyn diddordeb y cyhoedd | Dangos undod, arweinyddiaeth ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol | Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith | Gweithio'n gynaliadwy | Gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, ac y caiff ei ddarparu yn y modd mwyaf effeithiol | **£000 Cyllideb** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol a'r Bwrdd Newid | 362 | 199 | 920 | 341 | 1,378 | **3,200** |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 100 | 200 | 100 | 67 | 200 | **667** |
| Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad | 1,181 | 1,409 | 665 | 465 | 2,540 | **6,260** |
| Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Cynulliad | 3,109 | 1,257 | 4,583 | 3,091 | 5,814 | **17,854** |
| Dibrisiant | 650 | 651 | 651 | 651 | 651 | **3,254** |
| Cronfa wrth gefn | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | **500** |
| Y Gronfa Ad-drefnu | | | | | 593 | 593 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau'r Comisiwn** | **5,502** | **3,816** | **7,019** | **4,715** | **11,276** | **32,328** |
| **Cyflogau a lwfansau Aelodau, cyflogau swydd-ddeiliaid, cyflogau staff cymorth yr Aelodau** | | | | | | **16,494** |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | | | | | | **48,822** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** (Darpariaeth Cynllun Pensiwn yr Aelodau) | | | | | | **500** |

# Atodiad C – Cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad arian parod net gan Gronfa Gyfunol Cymru

£000

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | 16,494 | 13,041 | 13,126 |
| Gofyniad Refeniw Net y Comisiwn[1] | 31,212 | 30,938 | 31,145 |
| Gofyniad Cyfalaf Net | 1,116 | 750 | 750 |
| *Addasiadau:* | | | |
| Dibrisiant | (3,254) | (3,300) | (3,300) |
| Amhariad | - | - | - |
| Symudiadau mewn darpariaethau[2] | - | - | - |
| Elw/colled ar ôl gwerthu asedau | - | - | - |
| Symudiadau mewn stociau | - | - | - |
| Symudiadau mewn dyledwyr a chredydwyr | 1,150 | - | - |
| Darpariaethau | - | - | - |
| Arall | - | - | - |
| **Gofyniad arian parod net gan Gronfa Gyfunol Cymru** | **46,718** | **41,429** | **41,721** |

[1] Yn rhagdybio Incwm Cronnus o £0.260 miliwn o flwyddyn i flwyddyn

[2] Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn yr Aelodau (£0.5miliwn) yn awr yn gwmpas ar wahân

# Atodiad D – Cyllideb gwasanaethau'r Cynulliad - rhagor o fanylion

## Dadansoddiad o'r 'Costau gweinyddol eraill' a'r 'Costau adeiladau a chyfleusterau'

| Costau gweinyddol eraill £000 | 2011-12 Cyllideb | 2010-11 Cyllideb |
|---|---|---|
| Postio a chludo | 60 | 65 |
| Archwilio allanol | 70 | 42 |
| Archwilio mewnol | 25 | 15 |
| Offer swyddfa | 23 | 41 |
| Gwisgoedd a dillad | 19 | 21 |
| Lletygarwch | 43 | 58 |
| Yswiriant | 85 | 80 |
| Gwasanaethau Cyfrifyddu a Gwasanaethau Ariannol | 3 | - |
| Costau cyfreithiol | 12 | 26 |
| Gwasanaethau dwyieithog | 143 | 288 |
| Rheoli'r gyflogres | 58 | 48 |
| Cyhoeddiadau | 103 | 117 |
| Gwariant amrywiol | 8 | 20 |
| Gwasanaethau gwybodaeth - electronig | 142 | 142 |
| Llogi lleoliadau | 5 | 17 |
| Cynghorwyr arbenigol | 25 | 55 |
| Costau rhyngseneddol | 50 | 59 |
| Costau bancio | 2 | 3 |
| Offer swyddfa'r Aelodau | 86 | 126 |
| Cerbyd y Llywydd | 22 | 22 |
| Ymgynghori | 45 | 94 |

| | | |
|---|---|---|
| Trwyddedau Arolwg Ordnans | 6 | 12 |
| Treuliau Brwsel | 13 | 13 |
| Tanysgrifiadau corfforaethol | 4 | 4 |
| Mentrau corfforaethol | 1 | 18 |
| Cynghorwyr annibynnol | 25 | 25 |
| Adroddiadau allanol | 30 | 35 |
| Cydraddoldebau a mynediad | 5 | 10 |
| Gweinyddu pensiynau | 12 | - |
| Cyfarpar diogelwch | 10 | - |
| Mesurau argraffu | 10 | - |
| Newidiadau i wella cynaliadwyedd | 5 | - |
| Archwilio cefndir | 20 | |
| Bwrdd Taliadau | 25 | |
| Y Comisiynydd Safonau | 26 | |
| | **1,221** | **1,456** |

| Costau adeiladau £000 | 2011-12 Cyllideb | 2010-11 Cyllideb |
|---|---|---|
| Rhentu swyddfeydd | 2,291 | 2,150 |
| Ardrethi | 1,271 | 1,245 |
| Cynnal a chadw | 870 | 950 |
| Dodrefn a ffitiadau | 50 | 102 |
| Tanwydd | 15 | 15 |
| Nwy | 81 | 80 |
| Trydan | 408 | 400 |
| Dŵr | 22 | 22 |
| Glanhau, golchi, gwaredu gwastraff | 290 | 305 |
| Diogelu adeiladau | 410 | 615 |
| Nwyddau traul | 39 | 40 |
| Arlwyo | 337 | 390 |
| Rhentu peiriannau llungopïo | 150 | 160 |
| Glanhau ffenestri | 41 | 55 |
| Gwaith gwaredu | - | 2 |
| Parcio ceir | 140 | 75 |
| Meithrinfa | - | 103 |
| Gwaith a phrosiectau | 350 | 450 |
| Ysbwriel | 20 | 12 |
| Faniau | 2 | 10 |
| | **6,787** | **7,181** |